RIENI—YDYCH CHI'N ADEILADU GYDA DEFNYDDIAU ANHYLOSG?

Nodyn i'r siaradwr:
Addefwch nad yw hyfforddi plant yn dasg hawdd yn y dyddiau diwethaf hyn. Anogwch rieni i ganlyn cyngor dwyfol-ysbrydoledig y Beibl a gadael y canlyniadau yn nwylo Jehofah. Cyflwynwch awgrymiadau ymarferol ar sut i gymhwyso cyngor y Beibl

PAM MAE ANGEN DEFNYDDIAU ANHYLOSG WRTH HYFFORDDI PLANT (5 mun.)

Mae hyfforddi plant yn her wirioneddol heddiw

Pwysau byd anfoesol yn cynyddu oherwydd amcan cynddeiriog Satan i lygru'r hil ddynol (1Pedr 5:8)

Rhaid gwrth-weithio y tueddiadau drwg a ddaw i'r amlwg o "ieuenctid" (Gen 8:21)

Rhai rhieni yn magu nifer o blant, gyda chanlyniadau da yn hanes pob un

Tystiolaeth yw hyn i ymdrechion y rhieni i gyflawni eu cyfrifoldebau

Mewn teuluoedd eraill gwelir ieuenctid yn troi cefn wrth fynd yn hŷn, er eu magu yn y gwirionedd

Beth all fod yn gyfrifol am y gwahaniaeth, tybed?

Mae llawer yn dibynnu ar ansawdd gwaith y rhieni yn adeiladu â defnyddiau anhylosg wrth godi adeiladwaith ffydd yn eu plant (Darllen 1 Corinthiaid 3:10-13)

Bydd y drafodaeth yn ystyried sut medrwn gymhwyso cyngor Paul wrth hyfforddi plant

Wrth reswm, rhaid i'r plentyn a'r rhieni gyd-weithio; mae cyfrifoldeb ar blant i gymhwyso yn eu bywydau yr hyn a ddysgant (*w*98 11/1 13; *w*91 7/1 26-7)

BETH YW'R DEFNYDDIAU ANHYLOSG? (13 mun.)

Yn 1Corinthiaid 3:12, 13, mae Paul yn cyferbynu dau fath gwahanol o ddefnyddiau adeiladu—yr anhylosg ("aur, arian, meini gwerthfawr") a'r hylosg ("coed, gwair, gwellt") (*w*84 8/1 10-12)

Wrth hyfforddi plant, rhaid adeiladu â defnyddiau anhylosg; beth mae'r rhain yn ei gynrychioli?

Weithiau defnyddir aur, arian, a meini gwerthfawr yn ffigyrol yn y Beibl i gynrychioli nodweddion megis doethineb duwiol, dirnadaeth ysbrydol, ffydd gadarn, teyrngarwch, gwerthfawrogi Jehofah a'i ddeddfau mewn ffordd gariadus (Salm 19:7-11; Diar 2:1-6; 1Pedr 1:6, 7; *fy* 55)

Y nodweddion hyn yw cyfansoddiad adeiladwaith y bersonoliaeth Gristnogol y mae'n rhaid i ni geisio'i saernïo yn ein plant

Bydd y rhai â nodweddion cadarn o'r fath ynddynt yn medru gwrthsefyll y "tân"

Beth mae'r "tân" yn ei gynrychioli yma? (*w*84 8/1 12)

Dywed yr Ysgrythur y bydd gwaith *pob un* yn cael ei brofi â "thân"

Nid erledigaeth ydyw o angenrheidrwydd

Gall fod yn unrhyw fath o bwysau neu demtasiynau fedr ddifa ysbrydolrwydd—temtasiwn i weithredu'n rhywiol anfoesol, gwahoddiad i gymryd cyffur neu gamddefnyddio alcohol, pwysau i gael rhan yn adloniant diraddiol y byd, swynion materoliaeth

Mae gofyn i rieni ystyried: Pan fo'ch plant yn wynebu'r "tân," sut gwnân' nhw? Fyddan' nhw'n sefyll yn ddisigl fel adeiladwaith wedi'i godi â defnyddiau anhylosg? Neu losgi'n ddim fel un wedi'i godi â defnyddiau hylosg?

Mae llawer yn dibynnu ar eich ymroddiad chi wrth adeiladu nodweddion Cristnogol cadarn yn eich plant

SUT I ADEILADU Â DEFNYDDIAU ANHYLOSG (22 mun.)

Yn gyntaf o ran pwysigrwydd: Rhaid i rieni *osod patrwm da* (*w*84 8/1 13-14; *fy* 56)

Rhaid i'r nodweddion 'rydym am eu hadeiladu yn ein plant fod yn rhan o'n natur ni yn ogystal

Rhaid i gariad at Jehofah fod yng nghalonnau'r rhieni cyn y gallant ei argraffu ar galonnau'r plant (Deut 6:4-6)

Rhaid i'r hyn mae'r rhieni yn ei arddel fod yn gyson â'r hyn a wnânt (Rhuf 2:21-24)

Os ydym am adeiladu yn ein plant gariad at Jehofah a dymuno'i fodloni, dylent weld fod ein gweddïau, ein sgwrs, a'n gweithredoedd yn rhoi tystiolaeth bod cariad a dymuniad tebyg ynom ni

Mae plant yn rhoi mwy o sylw i'r hyn a wnawn nag i'r hyn a ddywedwn

Mae angen *hyfforddiant priodol* ar blant o'u babandod (Diar 22:6; 2Tim 3:15; *fy* 67-71)

Dysgwch nhw i weddïo; mae patrwm ein gweddïau ni'n bwysig

Helpwch nhw i ddod i 'nabod Jehofah yn ffrind agos, gan ddod yn gyfarwydd â'i nodweddion a'i ffyrdd

Bydd hyn yn help iddynt ddatblygu ynddynt eu hunain ymdeimlad cryf o ymgysegriad i Jehofah

Drwy eich esiampl chi, helpwch nhw i ddeall pam mai doeth yw ufuddhau i ddeddfau Jehofah (*w*84 8/1 15-16)

Dangoswch sut bydd cadw'i ddeddfau er lles iddyn nhw; bydd hyn yn eu hysgogi i ddymuno ei foddhau

Sefydlwch Grist yn sylfaen drwy ddysgu'ch plant amdano

Dylai'r plant weld sut gall esiampl a dysgeidiaeth Iesu ddylanwadu ar eu teimladau a'u gweithredoedd (1Pedr 2:21)

Helpwch nhw i ddod yn gyfarwydd â nodweddion meddwl Crist

Defnyddiwch *ddulliau dysgu da* (*w*01 10/1 8-13; *w*84 8/1 14-15)

Gofynnwch gwestiynau i'w cael nhw i feddwl a rhesymu ar yr hyn a ddysgant

Defnyddiwch gwestiynau agwedd, megis "Sut 'rydych chi'n teimlo ynglŷn â hyn?" neu "Sut medrwch chi roi'r cyngor hwn ar waith yn eich bywyd?"

Gall cwestiynau o'r fath eich helpu i ddarganfod yr hyn sydd yng nghalon y plentyn

Addaswch yr astudiaeth deuluol i ateb anghenion—problemau yn yr ysgol neu gartref—yn hytrach na chanolbwyntio ar fynd drwy hyn a hyn o ddeunydd

Dywed y Beibl *"Gwrandewch* ar gyfarwyddyd" (Diar 8:33)

Mae a wnelo disgyblaeth â chyfarwyddyd a hyfforddiant

Yn y ddisgyblaeth gwelir consýrn y rhieni am y plentyn (Heb 12:6, 11)

Nid oes esgus dros ffrwydro mewn dicter; byddai hyn yn dystiolaeth diffyg hunan reolaeth

Byddwch yn gyson wrth ddisgyblu (Mth 5:37; Eff 6:4; *fy* 84)

Tra gall eraill yn y gynulleidfa helpu, cofiwch *mai eich cyfrifoldeb chi yw eich plant chi* o ran eu hyfforddi

Gweddïwch ar Jehofah am gymorth i gael perthynas clòs â'ch plant ac i'w hyfforddi nhw yn y ffordd gywir (Barn 13:8)

Helpwch eich plant i gael budd o gyfarfodydd y gynulleidfa

Sicrhewch fod ganddynt eu Beibl eu hunain a'r llenyddiaeth angenrheidiol; eisteddwch gyda nhw; helpwch nhw i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd

Ymunwch yn y gwasanaeth maes fel teulu

GWOBR ADEILADU Â DEFNYDDIAU ANHYLOSG (5 mun.)

Mae adeiladu nodweddion anhylosg yn ein plant yn dod â gwobr (Darllen 1 Corinthiaid 3:14, 15) (*w*84 8/1 17)

Cafodd Paul y wobr o weld y rheini a gynorthwyodd i dderbyn y gwirionedd yn dyfalbarhau yn wyneb gwrthwynebiad; mae hyn yn dystiolaeth iddo adeiladu'n dda (1Thes 2:19, 20)

Yn yr un modd, dyna lawenydd fydd gweld ein rhai ifanc yn sefyll yn gadarn yn wyneb temtasiynau a phwysau, eu gweld yn dyfalbarhau yn y ffordd Gristnogol

Mae'n wir fod a wnelo cyflwr calon yr unigolyn â glynu wrth y gwirionedd, ond peidiwch byth ag anghofio rhan bwysig esiampl a hyfforddiant rhieni yn hyn

Pan saif plant yn gadarn yn y gwirionedd, maen' nhw'n anrhydeddu Jehofah ac yn dod â llawenydd i rieni (Diar 10:1; Preg 12:13, 14)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn nhw)

© 2007 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania Cedwir Pob Hawl